Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

20 Rhagfyr 2017

Annwyl Vaughan

Diolch am eich llythyr ar 19 Rhagfyr ynglŷn â dyddiad cyhoeddi'r adroddiad llawn gan Brifysgol Sheffield ar effeithiau cyflwyno isafbris ar gyfer uned o alcohol yng Nghymru.
Er fy mod yn cydnabod y bu'n rhaid aros am wybodaeth gan Weinyddiaeth Amddiffyn y DU y dylid ei hystyried wrth gyflawni'r gwaith modelu diwygiedig, rwy'n siomedig y bydd yr oedi hwnnw'n arwain at gyhoeddi'r adroddiad llawn gan Brifysgol Sheffield naill ai'n agos iawn at y terfyn amser ar gyfer ein hadroddiad, neu hyd yn oed wedi'r dyddiad y mae'n rhaid i'r Pwyllgor gwblhau ei waith craffu ar gyfer Cyfnod 1.

Yn eich llythyr, rydych yn nodi bod disgwyl i'r adroddiad llawn gynnwys gwybodaeth newydd am y model a luniwyd i ddangos effeithiau isafbrisiau gwahanol ar gyfer uned o alcohol, dadansoddiad o'r effeithiau ehangach os cyflwynir isafbris fesul uned, a chymhariaeth o faint y byddai angen cynyddu'r dreth ar alcohol i gyflawni'r un gostyngiad yn y defnydd o alcohol a nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon wedi clywed llawer o dystiolaeth ar y materion hyn, yn enwedig pa mor bwysig yw'r isafbris a bennir yn y pen draw er mwyn sicrhau canlyniadau iechyd, a bydd am wneud sylwadau ar y materion hyn yn yr adroddiad ar Gyfnod 1.

Gwn fod Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid wedi ysgrifennu atoch hefyd (llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr) i nodi pa mor bwysig ydyw i ni gael gafael ar y gwaith diwygiedig gan Brifysgol Sheffield mewn da bryd er mwyn i'r ddau bwyllgor allu ei drafod a'i ystyried yn ein hadroddiadau perthnasol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r union ddyddiad arfaethedig ar gyfer cyhoeddi adroddiad llawn Prifysgol Sheffield. Hoffwn hefyd eich annog i ymchwilio a fyddai modd cyhoeddi'r adroddiad yn gynharach na hynny. Er gwybodaeth, ac yn dilyn eich gohebiaeth ddiweddar, rwy'n ystyried yr opsiwn o ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn a ellid ymestyn y terfyn amser ar gyfer ein hadroddiad i 16 Chwefror.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted â phosibl.

Cofion

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon